

CYNGOR CYMUNED LLANFAIR YN NEUBWLL

Cofnodion Cyfarfod y Cyngor - 7.00 pm, Nos Fawrth 17 Hydref 2023

Yn bresennol: Cynghorydd Celfyn Furlong – Cadeirydd

Cynghorwyr: Gwilym O. Jones, Siân Enfys Jones, Gordon Owen, William Victor Owen, Evan Wyn Robertson ac Einir Thomas,

1. **Ymddiheuriadau:** Lowri Owen, Sharon Parry, Gareth Thomas a Dyfed Williams.
2. **Datganiad o Ddiddordeb** – Cyng. K. Taylor yn datgan diddordeb personol yn y materion cynllunio gan ei fod yn aelod o'r Pwyllgor Cynllunio.
3. **Cofnodion y cyfarfodydd blaenorol**
Derbyniwyd cofnodion 19 Medi 2023 fel rhai cywir. (Cyng. Cyng. E. Thomas, eilydd y Cyng. E. W. Robertson.)
4. **Materion yn codi o'r munudau.**
 - 4.1 Cae Chwarae: Roedd y ddwy fainc blastig wedi cyrraedd ond dim ond un wedi ei gosod, roedd y tywydd wedi troi a'r ddaear yn rhy wlyb.
 - 4.2 Diffibriliwr – cytunwyd bod yn rhaid i'r Cyngor gael amcangyfrif cost gan Scottish Power cyn cytuno ar gynllun a gwneud cais am ganiatâd ffurfiol gan adrannau eiddo / cynllunio CSYM.
 - 4.3 Goleuadau Stryd a phalmentydd Ffordd Minffordd – Gwaith yn parhau ar hwn.
 - 4.4 Neuadd y Pentref: Roedd Cyng. Gwilym Jones a Gordon Owen dal angen cyfarfod â chyfreithwyr y Neuadd i lunio cytundeb.
 - 4.5 Unrhyw fater arall sy'n codi o'r cofnodion: dim.
5. **Penderfyniadau Cynllunio – dim**
6. **Ceisiadau Cynllunio**
 - 6.1 **FPL/2023/257 Fferm Ysbylldir / Fferm Ysbylldir, Caergeiliog**
Cais llawn ar gyfer amnewid y mast 15m o uchder presennol gyda mast newydd 20m o uchder ynghyd ag adleoli a lleoli antenâu a datblygiad cysylltiedig ar y ddaear - dim sylwadau.
7. **Materion Ariannol**
Cyflwynodd yr SAC yr adroddiad ariannol am y cyfnod o 1.9.2023 i 30.9. 2023 ynghyd â chysoniadau banc, a chopïau o'r cyfrifon.
Cyfrif cyfredol £ 31,902.20, Cyfrif cadw £ 3,983.54.
8. Taliadau:

CYNGOR CYMUNED LLANFAIR YN NEUBWLL

Cyflog (Medi)	£397.82	Earth Anchors Ltd.	£867.60
Arolygu Cae Chwarae	£48.80	GMS	£90
Un Llais Cymru	£38		

Cytunwyd hefyd y byddai'r Clerc / SAC yn talu unrhyw anfonebau a dderbyniwyd mewn perthynas â gwariant a gytunwyd yn flaenorol.

9. Gohebiaeth – cyflwynwyd a nodwyd y canlynol.

- 9.1 Eisteddfod y Ffermwyr Ifanc – cytunwyd i roi £100
- 9.2 Cronfa Partneriaeth Bwyd Ynys Môn
- 9.3 Cefnogaeth i ddal profiadau pobl hŷn o wasanaethau meddygon teulu.
- 9.4 Cylchlythyr y Pwyllgor Safonau ar gyfer Cynghorau Tref a Chymuned – dosbarthwyd i'r holl aelodau.
- 9.5 Cwrdd â'r cyllidwyr – y clerc i fynychu'r digwyddiad hwn yn Neuadd y Dref Llangefni ar 1.11.2023
- 9.6 Archwilio Cymru - Cylchlythyr Medi
- 9.7 Cyfarfod Blynyddol Ynys Môn CAB 9/11/2023 – Y Cynghorydd Sian Enfys Jones am fynychu hwn.
- 9.8 Ymgynghoriad: Craffu ar Gyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru 2024-25

10. Dogfennau Statudol

Cytunwyd i dderbyn y polisiau canlynol fel y'u cyflwynwyd gan y clerc Gwybodaeth ar gael gan y Cyngor, Cynllun Cyhoeddi, Polisi Diogelu Data a'r Polisi Preifatrwydd Cyffredinol.

11. Adroddiadau Aelodau

- 11.1 Roedd y postyn a ddifrodwyd ar gyffordd 4 Dalar Hir heb ei drin
- 11.2 Roedd pryder bod rhai trigolion yn gor-yrru'n drwy Stâd Treifan, roedd hyn yn hynnod o angyfrifol o ystyried nifer y plant oedd i weld yno. Cytunwyd i fonitro'r sefyllfa ac i annog y trigolion i gysylltu â Heddlu Gogledd Cymru ar 101 os na fyddai'r sefyllfa'n gwella.

12. Cyfarfod nesaf – 21 Tachwedd 2023.

: